# KAREN MARTIN
## RYGBI'R GYNGHRAIR CADAIR OLWYN GYDA DREIGIAU GLEISION CAERDYDD

Mae Karen yn mynd y tu hwnt i'r gofyn ac hithau'n Rheolwr Tîm. Mae hi'n trefnu hyfforddiant a gemau ac yn sicrhau bod gan y tîm bopeth sydd ei angen arnyn nhw. Mae'n hyrwyddo iechyd meddwl a lles chwaraewyr, ac yn trefnu digwyddiadau codi arian rheolaidd, gan gefnogi'r clwb ac elusennau amrywiol.

Mae Karen yn gwirfoddoli llawer o'i hamser rhydd, tra'i bod hi'n gweithio'n llawn amser yn cefnogi myfyrwyr ADY mewn ysgol. Mae ganddi wên ar ei hwyneb bob amser, ac mae'n ysbrydoliaeth wirioneddol gyda'i sgiliau trefnu, a'i hagwedd 'bwrw iddi'. Mae hi'n dod o hyd i ffordd o wneud pethau gyda chryfder, dewrder a gwydnwch, ac mae ganddi wybodaeth helaeth am weithio gyda phobl ag anabledd a'u cefnogi. Heb Karen fyddai dim tîm.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## MAWRTH 2025